

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2019

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd) Mr Jonathan Mendoza (Aelod Lleyg) (Is-Gadeirydd) Y Cynghorwyr John Griffith, G.O. Jones, R. Llewelyn Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret Roberts. Aelod Lleyg: Mr Dilwyn Evans
WRTH LAW:	Prif Weithredwr Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP) Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM) (ar gyfer eitemau 4 a 6) Rheolwr Risg ac Yswiriant (JJ) (ar gyfer eitem 8) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Dim
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Mr Alan Hughes (Arweinydd Archwilio Perfformiad - Swyddfa Archwilio Cymru), Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO), Rheolwr Cyllid (CK), Prif Archwiliwr (CNC), Uwch Archwiliwr (SJ), Uwch Archwiliwr (JR) Llinos Joannou (Cynorthwydd Talent Denu) Chris Tidswell (CIPFA Cymru)

Wrth groesawu pawb a yn bresennol i gyfarfod cyntaf Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'r flwyddyn ddinesig newydd, diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd R. Llewelyn Jones am ei gefnogaeth yn ystod ei dymor fel Is-gadeirydd y Pwyllgor

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2 **COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir isod a chadarnhawyd eu bod yn gywir yn amodol ar yr isod -

- 23 Ebrill, 2019 gyda diwygiad i'r cyfeiriad a wneir o dan eitem 4 bod Gwasanaeth Archwilio Mewnol 40% oddi ar y targed o ran cyflawni ei Gynllun Gweithredol fel ei fod yn darllen 60% oddi ar y targed.

Yn codi o hynny -

Rhoes y Pennaeth Archwilio a Risg ddiweddariad i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r holiadur hunan-arfarnu trwy ddweud bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithio gyda Chris Tidswell o CIPFA Cymru i edrych ar effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio. Byddai'n arsylwi cyfarfod heddiw ar cyfarfod ar 3 Medi ac ar ôl hynny, byddai pecyn gwaith yn cael ei lunio i asesu pa mor effeithiol yw'r Pwyllgor a sut y gall gyflawni ei Gylch Gorchwyl.

- 14 Mai, 2019 (ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd)

3 **DATGANIAD O'R CYFRIFON DRAFFT A DATGANIAD LLYWODRAETHU DRAFFT 2018/19**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Datganiad cyn-archwiliad drafft o'r Cyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 ynghyd â'r Datganiad Llywodraethu drafft ar gyfer 2018/19 i'w hystyried gan y Pwyllgor.

Diolchodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i'r timau Cyfrifeg a Civica am eu gwaith o ran helpu i sicrhau bod y cyfrifon drafft wedi cael eu cwblhau a'u cyhoeddi yn unol â'r dyddiad cau statudol a oedd, ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20, wedi ei ddwyn ymlaen i 15 Mehefin. Mewn gwirionedd, cwblhawyd y cyfrifon drafft erbyn diwedd mis Mai, oherwydd mai dyma fydd y dyddiad cau statudol ar gyfer 2020/21 a'r blynyddoedd wedyn. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon wedi cael ei baratoi a'i nodi yn unol â rheoliadau ac arferion cyfrifyddu ac fe'i cynhyrchir yn flynyddol i roi gwybodaeth i etholwyr, trethdalwyr lleol, Aelodau'r Cyngor, gweithwyr a phartion eraill â diddordeb am gyllid y Cyngor a sut mae'n gwario arian cyhoeddus. Cyfeiriodd y Swyddog at y prif ddatganiadau ariannol gan dynnu sylw at y pwyntiau allweddol sy'n codi ohonynt fel a ganlyn –

- Adroddiad naratif - mae'n adrodd ar hanes perfformiad ariannol y Cyngor am y flwyddyn ac yn darparu canllawiau ar gyfer y materion mwy arwyddocaol yr adroddir arnynt yn y cyfrifon gan gynnwys y cyflawniadau, y materion a'r risgiau allweddol sy'n effeithio ar y Cyngor. Yn 2018/19, nododd y Cyngor orwariant o £ 633k yn erbyn gweithgaredd a gynlluniwyd o £ 130.9m (cyllideb net) a chyflawnwyd £ 2.064m o arbedion. Mae'r tabl yn 3.4.1 yn adlewyrchu'r gyllideb derfynol ar gyfer 2018/19 a'r incwm a'r gwariant gwirioneddol yn ei herbyn. Roedd tanwariant yn y Gyllideb Gyfalaf yn y flwyddyn gyda chyfanswm y gwariant yn £ 30.678m yn erbyn cyfanswm o £ 62.881m yn y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2018/19.
 - Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – mae'n dangos y gost gyfrifyddol o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifeg yn hytrach na'r swm a fydd yn cael ei ariannu o drethi a dyna'r rheswm am y diffyg o £ 20.744m sy'n adlewyrchu'r ffaith bod eitemau o wariant heblaw arian parod fel sy'n ofynnol yn ôl arferion cyfrifyddu (atebolrwydd pensiwn, dibrisiant, ailbrisio asedau) yn cael eu cynnwys yn hytrach na manylion am llif arian parod go iawn y Cyngor.
 - Crynodeb o'r Symudiadau yng Nghronfeydd Wrth Gefn y Cyngor (tudalen 24 o'r cyfrifon) – mae'n dangos y gorwariant net o £ 633k am y flwyddyn yn unol â'r adroddiad ar yr alldro refeniw a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith fel rhan o'r broses monitro ariannol a'r effaith ar y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol. Mae'r ffigwr yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng gwariant y cyllidebwyd ar ei gyfer a gwariant gwirioneddol am y flwyddyn. Mae'r tabl Crynodeb o Symudiadau hefyd yn dangos bod gwared o £ 805k ym malansau'r Cyfrif Refeniw Tai am y flwyddyn a bod cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor ar 31 Mawrth, 2019 yn £ 24.844m o gymharu â £ 24.069m ar 1 Ebrill, 2018.
 - Y Fantolen - yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau (yr hyn y mae'r Cyngor yn berchen arno a'r arian y mae arno ond heb gynnwys priffyrdd a phontydd ac ati) a gydnabyddir gan y Cyngor ar ddyddiad y Fantolen, sef 31 Mawrth, 2019. Mae gwerth y Cyngor wedi gostwng o £ 183.2m ar 31 Mawrth, 2018 i £ 162.456m ar 31 Mawrth, 2019 a

hynny'n bennaf o ganlyniad i'r cynnydd o £ 28.5m yn y diffyg yng Nghronfa Cynllun Pensiwn Diffiniedig Llywodraeth Leol.

- Y Datganiadau Llif Arian - yn dangos y newidiadau yn arian parod a chyfwerth ag arian parod y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol wedi'i rannu'n weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu.

- Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol craidd – maent yn darparu gwybodaeth a chyddestun ychwanegol i'r ffigurau yn y prif ddatganiadau ariannol. Tynnwyd sylw at nodiadau penodol a oedd yn ymhelaethu ar gronfeydd wrth gefn clustnodedig y Cyngor a'u pwrpas (N8); sefyllfa balansau ysgolion (N9); trethiant ac incwm grant amhenodol (gan gynnwys £ 44.606m a gasglwyd fel incwm Treth Gyngor yn 2018/19) (N14); asedau anghyfredol - eiddo, peiriannau ac offer sy'n darparu manylion am yr asedau a gaffaelwyd ac y cafwyd gwared arnynt yn ystod flwyddyn, ailbrisio a dibrisiant (N15); darpariaethau (N27); incwm gan dderbynwyr gwasanaeth (N31b); Lwfansau aelodau (N33); Tâl swyddogion (N34); Incwm grantiau (N37); Cynllun Pensiwn Athrawon a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (N40 a 41).

- Datganiad Llywodraethu Blynyddol - mae'n nodi'r broses, y systemau, yr egwyddorion a'r gwerthoedd y mae'r Cyngor yn cael ei arwain a'i reoli ganddynt gan gynnwys y trefniadau a oedd ar waith ganddo yn ystod y flwyddyn i reoli a lliniaru risgiau wrth gyflawni ei gyfrifoldebau a'i weithgareddau.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y canlynol -

- Y yn y sefyllfa gyffredinol o ran balansau ysgolion gyda 12 allan o'r 43 ysgol gynradd a 3 o'r 5 ysgol uwchradd yn ogystal â'r ysgol arbennig mewn diffyg ar 31 Mawrth, 2019 o gymharu â 3 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd ar 31 Mawrth, 2018. Yng ngoleuni'r uchod, roedd y Pwyllgor yn pryderu am allu'r Cyngor i gynnal ei ysgolion lleiaf yn y tymor hir. Cyfeiriodd y Pwyllgor ymhellach at y cyhoeddiad yn ddiweddar y byddai athrawon yn cael codiad cyflog o 2.75% a holodd a fyddai'r cynnydd yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod sefyllfa ariannol yr ysgolion yn dod yn anoddach i'w rheoli wrth i gyllidebau leihau sy'n golygu fod ysgolion yn ei chael hi'n fwyfwy anodd cydbwysu eu cyllidebau heb orfod torri staff dysgu. Mae ysgolion llai yn tueddu i gael eu heffeithio'n waeth oherwydd bod ganddynt lai o staff sy'n golygu bod unrhyw ostyngiad yn nifer y staff yn arwain at ddsbarthiadau mwy. Yn achos y Cyngor, mae parhau i gynnal model o ddarpariaeth addysg gynradd sy'n cynnwys 40 o ysgolion cynradd hefyd yn dod yn anoddach yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, nid yn lleiaf oherwydd cost cynnal a chadw 40 adeilad; fel arall gellid gwario'r arian a arbedir trwy leihau'r portffolio o adeiladau ysgolion ar ddarpariaeth addysg. O ran cyflog athrawon sydd bellach yn fater datganoledig, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddod yn cynnydd o 5% ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso a chynnydd o 2.75% ar gyfer yr holl athrawon eraill ond ni chafwyd unrhyw fanylion ynghylch y modd y bwriedir ariannu'r cynnydd hwn. Wrth wneud ei chyhoeddiad ei hun ynghylch codiad cyflog y sector cyhoeddus yr wythnos diwethaf, nododd Llywodraeth San Steffan y byddai'n rhaid ei ariannu o gyllidebau presennol yr Adrannau sy'n awgrymu na fydd unrhyw arian ychwanegol ar gael i dalu cost y cynnydd, sy'n golygu hefyd na fydd arian ychwanegol ar gael i Lywodraeth Cymru. Yn yr achos hwnnw, gall Llywodraeth Cymru naill ai ariannu cost y codiad cyflog drwy wneud toriadau mewn man arall yn ei chyllideb neu gall drosglwyddo'r gost i'r cynghorau gan olygu y bydd angen iddynt ddod o hyd i'r arian ychwanegol drwy gynyddu'r Dreth Gyngor a / neu leihau cyllidebau ysgolion a fyddai, yn ei dro, yn rhoi mwy o bwysau ariannol ar ysgolion.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor a luniwyd yn 2012 a'i hadolygu a'i diweddarau yn 2018 yn ceisio mynd i'r afael, ymhlith materion eraill, â materion sy'n ymwneud ag ansawdd a chost-effeithiolrwydd y

ddarpariaeth addysg gynradd ar yr Ynys tra hefyd yn ystyried yn benodol ofnyion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 sy'n nodi bod yn rhaid, wrth drafod ysgolion bach, ystyried pob dewis amgen hyfyw yn hytrach na'u cau.

- Rhwymedigaethau'r Gronfa Cynllun Pensiwn. Nododd y Pwyllgor nad oes gan y Cyngor unrhyw fewnbwn o ran sut a ble y mae arian y Gronfa yn cael ei fuddsoddi.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, er bod y Cynllun Pensiwn yn cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd, bod y Cyngor hwn yn cael ei gynrychioli ar Bwyllgor Pensiynau Gwynedd gan yr Aelod Portffolio Cyllid. Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y Pwyllgor Pensiynau yn cyfarfod bob rhyw ddau i dri mis a'i fod i fod i gyfarfod yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf i gwrdd â rhai o'r Rheolwyr Buddsoddi sy'n rheoli buddsoddiadau'r Gronfa. Dywedodd yr Aelod Portffolio fod rhan o asedau'r Gronfa wedi cael eu cyfuno gydag asedau cronfeydd pensiwn llywodraeth leol eraill yng Nghymru ac y byddai ef, ynghyd â Swyddog 151 Cyngor Gwynedd ac aelodau eraill o Bwyllgor Pensiynau Gwynedd yn cyfarfod â Russell Investments, un o reolwyr y cronfeydd cyfun cyn diwedd y flwyddyn. Disgwylir i'r prisiad actiwaraidd nesaf o'r Gronfa Bensiwn gael ei gynnal ym mis Mawrth, 2020.

- Dyledwyr. Holodd y Pwyllgor a oedd cysylltiad rhwng y £ 266k sydd wedi ei nodi yn erbyn dyledwyr tymor hir yn y Fantolen a'r ddarpariaeth o £ 5.639m ar gyfer dyledion drwg y cyfeirir ati yn Nodyn 24 (Dyledwyr). Nododd y Pwyllgor ymhellach fod derbyniadau a gymerwyd gan y Cyngor gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (sydd, oherwydd bod y ddau gorff yn cael eu rheoli y Llywodraeth ganolog yn barti sy'n gysylltiedig â'r Cyngor) yn dod i £ 2.077m (£3.768m yn 2017/18), gyda £ 2.231m yn ddyledus gan y parti cysylltiedig ar ddiwedd y flwyddyn. Gofynnodd y Pwyllgor am esboniad o'r sefyllfa mewn perthynas â'r arian sy'n ddyledus ac a yw'r sefyllfa'n debygol o ddod yn fwy cymhleth wrth i'r Cyngor gydweithio mwy â'r Bwrdd Iechyd.

Eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod Nodyn 24 yn darparu dadansoddiad o'r swm o £ 29.9m sy'n gysylltiedig â dyledwyr tymor byr (blwyddyn neu lai) ac nid yw'n cynnwys y ddarpariaeth o £ 5.539m ar gyfer dyledion drwg. Amcangyfrif yw hwn o'r arian sy'n ddyledus ac sydd, fe dybir, yn annhebygol o gael ei gasglu ac y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cyfrifon ond nid yw'n golygu bod y dyledion yn cael eu diystyru neu fod y Cyngor yn rhoi'r gorau i geisio eu hadennill. Po fwyaf o ddyled y mae'r Cyngor yn llwyddo i'w hadennill, y mwyaf yw'r gostyngiad yn y ddarpariaeth dyledion drwg a'r lleiaf yw'r effaith ar y gyllideb refeniw. O ran BIPBC, dywedodd y Swyddog ei fod wedi cael trafodaethau â Chyfarwyddwr Cyllid newydd BIPBC yn ddiweddar ac yn dilyn hynny, cadarnhawyd y swm a oedd yn ddyledus gan y Bwrdd Iechyd, sef swm a oedd oddeutu £ 600k ar y pryd. Mae yna hefyd ddyledion hanesyddol y mae angen mynd i'r afael â nhw; mae'n bosibl y bydd datrys y rhain yn anoddach gan fod y Bwrdd Iechyd yn gofyn am dystiolaeth sy'n cadarnhau y gwnaed cytundeb i'w talu ac efallai na fydd y dystiolaeth honno ar gael pan fo dipyn o amser wedi mynd heibio neu mewn achosion ble yr oedd cytundeb yn seiliedig ar ddealltwriaeth ar lafar yn unig. Pan mae'r Cyngor yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau, yna byddai trefniant o'r fath yn cael ei gefnogi o'r cychwyn gan gytundeb gwasanaeth yn nodi'r broses ar gyfer rhannu'r costau a'r cyfrifoldeb am daliadau. Un maes aneglur yw'r gwahaniaeth rhwng costau iechyd a gofal cymdeithasol gyda nifer o ddyledion yn codi o achosion unigol lle na ddaethpwyd i gytundeb ynghylch a yw'r costau a gafwyd i'w priodoli i anghenion iechyd sy'n daladwy gan y Bwrdd Iechyd neu oherwydd anghenion gofal cymdeithasol sy'n daladwy gan yr awdurdod lleol (oni bai bod y cleient yn hunan-ariannu.)

Dywedodd y Swyddog fod cyfraddau casglu dyledion y Cyngor yn dda yn gyffredinol ac mewn perthynas â'r Dreth Gyngor a Chyfraddau Busnes, roedd y cyfraddau casglu yn 99.3% dros gyfnod o dair blynedd. (Yr incwm y mae'r Cyngor yn ei gasglu drwy'r Dreth

Gyngor yw £ 44m - Nodyn 14). Yn achos dyledion eraill, mae'r gyfradd casglu oddeutu 85%. Mae'r Cyngor wedi cyflogi swyddog i helpu i fynd i'r afael â dyledion hanesyddol sydd, er bod y prosiect yn agosáu at ei ddiwedd, yn parhau i gyflawni bob mis o ran adennill dyledion. Mae'r Cyngor hefyd yn mabwysiadu dull mwy rhagweithiol o ran mathau eraill o ddyled e.e. adennill costau gofal cymdeithasol.

- Darpariaethau. Holodd y Pwyllgor am y cynnydd o £ 278k ar gyfer costau posibl yn y dyfodol mewn perthynas â safle tirlenwi Penhesgyn. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod costau yn gysylltiedig â chynnal a chadw safle Penhesgyn ac yn benodol mewn perthynas â'r cylfat sy'n rhedeg o dan y safle. Gwneir y ddarpariaeth i dalu am unrhyw gostau posibl a allai ddeillio petai'r cylfat yn methu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor nodi'r datganiadau ariannol drafft nas archwiliwyd ar gyfer 2018/19.

NI WNAED UNRHYW GYNIGION YCHWANEGOL

4 ARCHWILIO ALLANOL: ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL - CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd Adroddiad Gwella Blynyddol yr Archwiliwr Allanol ar gyfer 2018/19 mewn perthynas â Chyngor Sir Ynys Môn i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r gwaith a wnaed ers yr adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf gan gynnwys gwaith y rheolyddion perthnasol.

Dywedodd Mr Alan Hughes, Arweinydd Archwilio Perfformiad (WAO) fod y Cyngor yn cwrdd â'i ofnion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus ond, fel gyda phob cyngor yng Nghymru, mae'n wynebu heriau wrth symud ymlaen. Barn yr Archwilydd Cyffredinol yw bod y Cyngor, ar sail, ac yn gyfyngedig, i'r gwaith a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2019/20. Fodd bynnag, cydnabyddir bod pob cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol a fydd angen sylw parhaus yn y tymor byr a'r tymor canol i'w galluogi i gyrraedd sefyllfa ariannol sefydlog a chynaliadwy. Er na wnaed unrhyw argymhellion ffurfiol gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod y flwyddyn, gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwella ac atgynhyrchir y rhain yn yr adroddiad. Bydd cynnydd yn erbyn y cynigion hyn ac yn erbyn yr argymhellion perthnasol o adroddiadau cenedlaethol (Atodiad 3 i'r adroddiad) yn cael ei fonitro gan yr Archwilywr Allanol fel rhan o'u gwaith ar gyfer asesu gwelliant.

Penderfynwyd derbyn a nodi Adroddiad Gwella Blynyddol yr Archwilywr Allanol ar gyfer Ynys Môn.

NI WNAED UNRHYW GYNIGION YCHWANEGOL

5 DIWEDDARIAD AR GYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys diweddariad ar gynnydd diweddaraf y gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaethau, darparu sicrwydd a'r adolygiadau a gwblhawyd.

Amlygodd y Pennaeth Archwilio a Risg y prif bwyntiau fel a ganlyn -

- Bod tri adroddiad archwilio wedi'u cwblhau yn y cyfnod. Arweiniodd y cyntaf a oedd yn ymwneud â CONTEST - Gwrthderfysgaeth - at farn Sicrwydd Rhesymol gyda'r adolygiad yn canfod bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth weithredu fframwaith effeithiol o reolaethau i sicrhau y gall gyflawni ei gyfrifoldebau "Atal" statudol yn

llywyddiannus mewn perthynas â Strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth EM (CONTEST) 2018. Roedd yr ail adroddiad yn ymwneud â Diwygio Lles - Incwm Rhenti Tai a arweiniodd hefyd at farn Sicrwydd Rhesymol gyda'r adolygiad yn dod i'r casgliad bod gan y Cyngor nifer o reolaethau gweithredol effeithiol ar waith i reoli'r effaith ar allu'r Cyngor i gasglu incwm Rhent Tai. Yn achos y ddau adolygiad, nododd y gwasanaeth Archwilio Mewnol fod sgôp ar gyfer gwella rheolaethau yn y dyfodol yn y meysydd a archwiliwyd gyda hynny'n cael ei adlewyrchu mewn cynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt gyda'r Rheolwyr (ar gael i aelodau'r Pwyllgor ar gais i'r Pennaeth Archwilio a Risg). Cododd y gwasanaeth Archwilio Mewnol 4 Prif Risg / Mater ar yr adolygiad CONTEST - ac 1 Mater / Risg Mawr a 3 Cymedrol mewn perthynas â Diwygio Lles - Incwm Rhent Tai ac ymhelaethwyd ar y rhain gan y Swyddog.

Y trydydd adroddiad archwilio a gwblhawyd oedd gwiriad iechyd i sicrhau bod llywodraethu gwybodaeth a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol wedi cael eu sefydlu'n gadarn ar draws yr holl ysgolion ar yr Ynys a chynhaliwyd y gwiriad gan Strategic Risk Practice Zurich Risk Engineering (ZRE) fel darn o waith ymgynghori ar gyfer gwybodaeth fewnol yn unig ac sydd ddim felly'n darparu sgôr sicrwydd.

- Cwblhawyd yr un Adolygiad Dilyn-i-Fyny yn ystod y cyfnod yn ymwneud â Chydymffurfriad â Safonau Diogelwch Data'r Diwydiant Cerdyn Talu a arweiniodd at uwchraddio'r sgôr Sicrwydd Cyfyngedig wreiddiol i farn Sicrwydd Rhesymol. Mae adolygiadau dilyn-i-fyny mewn perthynas â Chasglu Incwm Ysgolion Cynradd (adolygiad dilyn-i-fyny cyntaf) a Dyledwyr Amrywiol (yr ail adolygiad dilyn-i-fyny) yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Mae tri o adolygiadau dilyn-i-fyny pellach wedi'u hamserlennu ar gyfer gweddill y flwyddyn mewn cysylltiad â'r meysydd a restrir ym mharagraff 21 yr adroddiad.
- Bu gostyngiad bach o ran mynd i'r afael â materion/risgiau Uchel/Coch/ Ambr o 89% yn Chwarter 4 2018/19 i 87% yn Chwarter 1 2019/10 er nad oes unrhyw faterion/risgiau Uchel neu Goch sydd heb gael sylw. Ceir esboniad am y dirywiad ym mharagraff 23 yr adroddiad.
- Roedd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gobeithio cwblhau ac adrodd ar ganlyniad pedwar archwiliad i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwn (Trefniadau Parhad Busnes, Dilyn-i-Fyny Corfforaethol, Gwydnwch TG a Gwiriad Iechyd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol) ond oherwydd y rhesymau a amlinellir ym mharagraff 29 yr adroddiad, ni fu modd gwneud hynny. Yn dilyn yr argymhelliad a wnaed yn y Gwiriad Iechyd ar gyfer Rheoli Risg Gorfforaethol, sef y dylid adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol a rhesymoli'r risgiau corfforaethol, adolygodd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Gofrestr Risg Gorfforaethol gan haneru bron y risgiau corfforaethol. Adlewyrchir hyn yn y blaenoriaethau archwilio mewnol ar gyfer y dyfodol. Cyfeiriodd y Pennaeth Archwilio a Risg at y Cynllun Gweithredu dan Atodiad A gan dynnu sylw at y newidiadau a wnaed a'r rhesymau a hynny ac yn ogystal, tynnodd sylw at y ffaith bod y Cynllun yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch pryd yr adolygwyd y risgiau corfforaethol ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ddiwethaf.
- Gofynnodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod blaenorol am eglurhad ynghylch a oes diffiniad cenedlaethol safonol o raddfeydd sicrwydd, ac os nad oedd, a ddylid cyflwyno hyn er budd meincnodi a chysondeb. Cadarnhaodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol nad oedd diffiniad safonol ar gyfer graddfeydd sicrwydd yn cael ei ddefnyddio ac ymhellach, fod y Gwasanaeth wedi anfon ymholiad at bob pennaeth archwilio ar draws Cymru, yn ogystal â'r Ymgynghorydd Llywodraethu yn Fforwm Llywodraethu Gwell CIPFA er mwyn pennu a oedd cefnogaeth ar gyfer cyflwyno diffiniad o'r fath. Cadarnhaodd yr ymarfer nad yw diffiniadau'r cynghorau yn annhebyg ac o'r 14 ymateb a dderbyniwyd, dim ond un gefnogodd y syniad o raddfeydd sicrwydd safonol gyda'r gweddill o blaid cadw hyblygrwydd lleol i adrodd ar gasgliadau yn y ffordd fwyaf addas i'w sefydliad.
- Roedd CIPFA wedi lansio ei Ddatganiad ar rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol ym mis Ebrill 2019 sy'n cyflwyno pum egwyddor sy'n cyd-fynd â Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y DU, sy'n amlinellu'r disgwyliadau allweddol ar benaethiaid archwilio mewnol a'r amodau a fydd yn gadael iddynt ffynnu. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg, yn ei barn hi, fod rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol yn y Cyngor yn bodloni'r pum

egwyddor ac yng nghyd-destun “arwain a chyfarwyddo Gwasanaeth Archwilio Mewnol sydd ag adnoddau priodol, digonol ac effeithiol”, cadarnhaodd y bydd awdurdod cyfagos yn gallu darparu adnodd i Wasanaeth Archwilio Mewnol Ynys Môn i lenwi rhai o'r adnoddau sydd ar goll o'r Gwasanaeth yn sgil absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb salwch tymor hir.

Trafododd y Pwyllgor y materion canlynol –

- Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r cadarnhad y byddai yna adnodd staff ychwanegol dros dro ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i bontio'r bwch a grëwyd gan absenoldeb staff, sy'n ategu ei farn fod angen i'r swyddogaeth Archwilio Mewnol gael adnoddau digonol er mwyn darparu'r wybodaeth i'r Pwyllgor allu gwneud ei waith yn iawn. Ond roedd hefyd yn cwestiynu, yn wyneb y prinder staff, a oedd hi'n ymarferol i'r Gwasanaeth fod yn cynnal y Gwiriad lechyd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol y cyfeirir ato ym mharagraff 29 yr adroddiad yn hytrach na defnyddio darparwr sicrwydd allanol? Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y ffaith fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gyfarwydd â phersonél a phrosesau mewnol y Cyngor yn fanteisiol o gymharu â defnyddio darparwr sicrwydd allanol, ac yn achos y Gwiriad lechyd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol ac ar ôl ymgynghori â'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth, teimlwyd y gellid gwneud y darn hwn y waith yn fwy effeithiol yn fewnol.
- Mewn perthynas â'r adolygiad archwilio ar Ddiwygio Lles – Incwm Rhent Tai, nododd y Pwyllgor fod problemau gyda'r system wedi amharu ar allu'r Cyngor i fonitro perfformiad y tenantiaid sydd ar Gredyd Cynhwysol, ac ymhellach i hynny, nad oedd y Cyngor wedi proffilio ei denantiaid yn llawn (rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor mai 40% oedd y gyfradd ymateb i'r llythyrau oedd yn gofyn am y wybodaeth yma). Golygai hyn, heb wybodaeth fanwl-gywir am ddemograffeg yr Ynys, y gallai lesteirio gallu'r Cyngor i gynllunio ymlaen llaw a chasglu gwybodaeth er mwyn siapio gwasanaethau at y dyfodol. Teimlai'r Pwyllgor y dylai'r wybodaeth hon fod wedi'i chasglu fel rhan o'r gwaith paratoadol, a heb y wybodaeth hon roedd y Pwyllgor yn bryderus nad yw'r Cyngor yn gallu asesu effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent ac y byddai goblygiadau posib i'w incwm. Cynigiodd y Pwyllgor y dylid gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Tai ddod i'r cyfarfod nesaf i roi diweddariad ar y sefyllfa o ran proffilio tenantiaid.

Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg nad oedd y Gwasanaeth Tai wedi cefnogi cynnig cychwynnol i gael swyddog proffilio pwrpasol ar y sail fod y rôl wedi'i hymgorffori yn swydd ddisgrifiadau'r tîm Gofal Cwsmer, sydd nawr yn gwneud y dasg fel rhan o'u cyswllt dydd i ddydd gyda thenantiaid y Gwasanaeth Tai.

Penderfynwyd, ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd a'r esboniadau a roddwyd gan y Swyddogion, fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn ac yn nodi'r cynnydd diweddaraf gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran ei ddarpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, yr adolygiadau a gwblhawyd, a'i berfformiad ac effeithiolrwydd wrth yrru gwelliant.

CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL A GYNIGIWDYD: Gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Tai fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor i roi diweddariad ar y sefyllfa o ran proffilio tenantiaid.

6 ARCHWILIO ALLANOL:ARCHWILIAD O "HYRWYDDO YNYS MÔN ER MWYN ANNOG DATBLYGWYR MAWR I FUDDSODDI YN YR YNYS"

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried – adroddiad Archwilio Allanol ar ganfyddiadau ei ymchwiliad i gam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gwrdd â'i amcanion llesiant, sef hyrwyddo Ynys Môn i annog datblygwyr mawr i fuddsoddi yn yr Ynys a defnyddio hyn fel catalydd i ddatblygu busnes a swyddi ar yr Ynys.

Adroddodd Mr Alan Hughes, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad (SAC), fod gofyn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth iddynt osod eu hamcanion llesiant a chymryd camau i gwrdd â hwy. Yn yr adroddiad uchod, mae'r Archwilydd Allanol wedi ceisio sefydlu p'un a yw'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei gam i hyrwyddo Ynys Môn er mwyn annog datblygwyr mawr i fuddsoddi yn yr Ynys. Er mwyn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus roi ystyriaeth i'r "pum ffordd o weithio" fel y cânt eu diffinio yn y ddogfen "Yr Hanfodion" yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n ymwneud â diogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir; gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth; ystyried integreiddio amcanion llesiant y corff cyhoeddus gyda'u hamcanion eraill neu amcanion corff cyhoeddus arall; gweithredu gan gydweithio ag unrhyw berson arall neu rannau gwahanol o'r corff ei hun a chynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r amcanion llesiant gan sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Daeth yr adroddiad i'r casgliadau hyn –

- Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy o ran datblygu'r cam, ond mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach.
- Mae'r Cyngor wedi ceisio cael dealltwriaeth drylwyr o effeithiau anffafriol prosiect ar raddfa fawr, ac mae'n deall pwysigrwydd casglu data i oleuo'i weithgareddau ataliol.
- Mae'r Cyngor yn ystyried sut y gallai ei gam gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol a'i amcanion llesiant eraill, ond nid yw wedi ystyried yn ffurfiol sut y bydd y datblygiad yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.
- Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i gydweithio gyda phartneriaid ac adlewyrchu anghenion a dymuniadau cymunedau lleol, ond gallai wella'r modd y mae'n adolygu effeithiolrwydd y cydweithio.
- Mae'r Cyngor wedi cynnwys rhan-ddeiliaid ym mhrosiect Wylfa Newydd, ond mae angen iddo ddatblygu ei ddull o gynnwys amrywiaeth lawn y gymuned.

Ar ôl i'r gwaith maes ddod i ben, cyflwynwyd canfyddiadau'r Archwilydd Allanol i Swyddogion y Cyngor mewn gweithdy ym mis Mawrth, 2019 lle dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'r canfyddiadau. O ganlyniad i'r trafodaethau yn y gweithdy a myfyrion ymhellach ar y canfyddiadau, mae'r Cyngor wedi datblygu cyfres o gamau gweithredu o dan themâu penodol ac mae'r rhain wedi eu rhestru yn y tabl yn Rhan 2 yr adroddiad.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr archwiliad yn ceisio gofyn a yw'r Cyngor wedi dechrau arddel egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei waith dydd i ddydd, sef prif ffocws yr adroddiad. Mae'r adroddiad yn canfod bod y Cyngor wedi dechrau cymhwyso'r egwyddorion hynny'n llwyddiannus ac mae'n tynnu sylw at nifer o gryfderau yn y gwaith y mae'r Cyngor wedi'i wneud mewn perthynas â phwnc yr astudiaeth hon ond mae'n cydnabod hefyd fod angen cydbwysedd rhwng gwaith sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a gofynion a blaenoriaethau eraill ehangach y Cyngor. Yng nghyswllt Wylfa Newydd mae'r Cyngor wedi dysgu llawer iawn, a hynny o weithio ar y prosiect ei hun ac o gydweithredu â Swyddfa Archwilio Cymru ar yr astudiaeth uchod. Mae'r camau gweithredu y mae'r Cyngor wedi eu datblygu mewn ymateb i'r adroddiad i'w gweld ym mharagraff 32 ac maent yn cadarnhau'n glir ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo'r Ynys fel cychfan ar gyfer datblygiadau ynni ar raddfa fawr.

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad fel un a roddai asesiad positif ar y cyfan o waith y Cyngor wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei ymdrech i hyrwyddo Ynys Môn i annog datblygwyr mawr i fuddsoddi yn yr Ynys.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad Archwilio Allanol ar ei archwiliad o “Hyrwyddo Ynys Môn i annog Datblygwyr Mawr i Fuddsoddi yn yr Ynys.”

NI WNAED UNRHYW GYNNIG YCHWANEGOL

7 DATGANIAD POLISI RHEOLI RISG

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried – adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori Datganiad Rheoli Risg sy'n amlinellu cyfrifoldebau o fewn y Cyngor ar gyfer adnabod, rheoli a monitro risgiau.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg, fel rhan o'i drefniadau ar gyfer llywodraethiant corfforaethol da, fod angen i'r Cyngor gael datganiad clir o'i bolisi cyffredinol ar gyfer rheoli risgiau wrth iddo gyflawni ei amcanion a darparu ei wasanaethau. Fel sefydliad mawr ac amrywiol, bydd yr archwaeth risg yn amrywio yn ôl y weithgaredd a wneir, a bydd yr archwaeth am risg a'r goddefgarwch i risg yn wahanol trwy'r sefydliad cyfan. Cydnabyddir fod rhaid i'r Cyngor dderbyn rhyw elfen o risg er mwyn gallu cyflawni ei amcanion. Felly, y polisi yw sicrhau diwylliant o gymryd risg yn seiliedig ar wybodaeth. Mae archwaeth risg y sefydliad yn ei gynorthwyo i benderfynu beth sy'n risg berthnasol; beth sy'n risg uchel a beth sy'n risg isel. Wrth benderfynu ar yr archwaeth risg, gall y Cyngor flaenoriaethu risg yn fwy effeithiol er mwyn cymryd camau lliniaru a dyrannu adnoddau'n well.

Dywedodd y Swyddog fod sefydlu archwaeth risg y Cyngor yn ddarn o waith yr hoffai ei wneud ar y cyd â'r Aelodau a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth fel y bydd modd llunio datganiad archwaeth risg clir a'i gymeradwyo. Mae sefyllfa gyffredol y Cyngor o ran ei archwaeth risg i'w weld yn y Matrics Asesiad Rheoli Risg ar ddiwedd yr adroddiad a byddwn yn parhau i ddefnyddio hwn hyd nes y cyhoeddir y datganiad polisi. Bydd gwahanol lefelau o oddefgarwch risg yn berthnasol trwy'r Cyngor, yn dibynnu ar y gwasanaeth unigol e.e. bydd lefel y goddefgarwch risg yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn wahanol i lefel goddefgarwch y Gwasanaethau Prifffyrdd.

Penderfynwyd derbyn y Datganiad Polisi Rheoli Risg fel y cafodd ei gyflwyno a chymeradwyo i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn ei gymeradwyo.

NI WNAED UNRHYW GYNNIG YCHWANEGOL

8 ADRODDIAD YSWIRIANT BLYNYDDOL 2018/19

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried – adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori'r adroddiad Yswiriant Blynyddol ar gyfer 2018/19.

Adroddodd y Rheolwr Archwilio a Risg fod yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r hawliadau a wnaed yn erbyn trefniadau yswiriant allanol a mewnol y Cyngor am y cyfnod 1 Ebrill, 2014 i 31 Mawrth, 2019 yn seiliedig ar y dyddiad y digwyddodd y digwyddiad ac nid ar y dyddiad y gwnaed neu gyflwynwyd yr hawliad, ac ar gyfer hawliadau a gyflwynwyd cyn 1 Ebrill, 2019. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi sylwadau ar dueddiadau o ran hawliadau, a heriau at y dyfodol. Mae'r crynodeb o hawliadau sydd yn Atodiad A yr adroddiad hefyd yn darparu dadansoddiad fesul polisi, fesul blwyddyn ariannol ar gyfer y Cyngor cyfan o nifer yr hawliadau sydd wedi cael eu talu, yr hawliadau a gafodd eu setlo heb gostau neu heb orfod gwneud taliad, a hawliadau sydd heb eu setlo hyd yn hyn. Mae'r crynodeb yn cynnwys y swm a dalwyd yn achos yr hawliadau hynny sydd wedi eu setlo, a'r swm sydd wedi'i gadw wrth gefn ar gyfer yr hawliadau hynny sydd heb eu setlo eto.

Mewn ymateb i ymholiadau gan y Pwyllgor, rhoddodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant eglurhad ar y canlynol –

- Mae gan y Cyngor yswiriant anaf personol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithredu ar ran y Cyngor, lle bynnag y bo hynny. Fodd bynnag, ni fyddai'r yswiriant yn berthnasol yn achos crefftwyr proffesiynol sy'n gwirfoddoli eu gwasanaethau e.e. trydanwr yn gwirfoddoli i wneud darn o waith mewn ysgol.
- Bod y swm o £174,199 sydd wrth gefn ar gyfer hawliadau atebolrwydd cyhoeddus yn 2018/19, er yn uwch na'r symiau wrth gefn ar gyfer y blynyddoedd cynt, wedi'i osod yn erbyn ffigwr cyfatebol uwch o 39 o hawliadau sydd dal yn agored yn 2018/19 sy'n cynnwys hawliadau mwy diweddar a fydd yn cymryd yn hirach i'w cau, p'un a gânt eu setlo ar gost neu heb gost.
- Bod y mwyafrif (dros 50%) o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus yn gysylltiedig â phriffyrdd e.e. llithro, baglu neu godwm ar lithrfa oedd dan reolaeth y Cyngor, a thwll yn y ffordd yn achosi difrod i gerbydau.
- Bod y Cyngor yn ceisio dysgu o hawliadau a wnaed. Mewn achosion lle mae'r hawliadau o ganlyniad i gamgymeriadau gan yrwyr y Cyngor, er enghraifft, mae'r Gwasanaethau Priffyrdd yn trefnu hyfforddiant gyrrwr i geisio lleihau'r tebygolrwydd o gamgymeriadau'n digwydd ac felly hawliadau'n codi o hynny.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r Adroddiad Yswiriant Blynyddol ar gyfer 2018/19.

NI WNAED UNRHYW GYNNIG YCHWANEGOL

9 ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI'R TRYSORLYS 2018/19

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Adolygiad Rheoli Trysorlys ar gyfer 2018/19.

Tynnodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 sylw at y canlynol -

- Yn wyneb yr ansicrwydd sy'n parhau ynghylch yr economi dros gyfnod Brexit a'r ffaith fod cyfraddau llog yn parhau'n isel, mae'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys wedi parhau i fenthycia dim ond pan fo angen ac i fuddsoddi ar sail diogelwch a hylifedd gan sicrhau bod yr arian parod y mae'r Cyngor wedi'i fuddsoddi ar gael yn rhwydd.
- Am sawl blwyddyn bellach, strategaeth y Cyngor fu defnyddio ei adnoddau arian parod ei hun i ariannu gwariant cyfalaf lle bo'n bosib. Fodd bynnag, oherwydd balansau arian parod isel yn ystod y flwyddyn, penderfynwyd benthycia'n allanol gan gymryd dau fenthyciad hirdymor allan gyda'r PWLB – £15m ym mis Ionawr, 2019 dros 50 mlynedd ar gyfradd llog o 2.49% (defnyddiwyd £5m o hwn i ad-dalu benthyciad a oedd yn aeddfedu) a £10m ym mis Mawrth 2019 dros 46 mlynedd ar gyfradd llog o 2.24%.
- Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd y sefyllfa benthycia mewnol yn £19.9m. Trwy dynnu'r benthyciadau y cyfeirir atynt uchod, roedd y sefyllfa benthycia mewnol ar 31 Mawrth, 2019 wedi lleihau i £6.2m.
- Yn ystod y flwyddyn honno, roedd y Cyngor hefyd wedi cymryd dau fenthyciad tymor byr – un am £5m ym mis Hydref, 2018 am 3 mis gyda Chyngor Sir Gogledd Swydd Efrog gyda chyfradd llog o 0.85% a'r llall am £5m ym mis Rhagfyr, 2018 am 1 mis gyda Chronfa Bensiwn Tyne and Wear gyda chyfradd llog o 0.8%. Fe wnaeth y Cyngor gymryd y benthyciadau hyn i leddfu anawsterau llif arian tymor-byr.
- Yn ystod 2018/19, fe wnaeth y Cyngor gydymffurfio â'i ofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Roedd y Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR – angen sylfaenol y Cyngor i fenthycia) a ragwelwyd ar adeg cynhyrchu'r dangosyddion darbodous ar gyfer 2018/19 yn £148.940m. Roedd y CFR gwirioneddol yn llawer is, sef £138.660m. Ni aeth y Cyngor dros y Terfyn Benthycia Awdurdodedig (£177M) na'r Terfyn Gweithredol (£172m) yn ystod y flwyddyn, gyda'r ddyled allanol yn dod i uchafswm o £134.4m yn unig. Mae'r perfformiad yn erbyn y

Dangosyddion Darbodus a osodwyd gan y Cyngor yn dangos bod gweithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cael eu gwneud mewn modd rheoledig sy'n sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor ac nad ydynt yn rhoi'r Cyngor mewn unrhyw berygl ariannol sylweddol yn nhermau benthyca gormodol neu anfforddiadwy.

- Gan edrych ymlaen, mae'n debyg y bydd y strategaeth yn parhau i fod yn un o fuddsoddiadau risg isel, elw isel, a threfn o gynllunio benthyciadau i gael y taliadau llog isaf posib.

Ar y pwynt hwn, eglurwyd fod y Pwyllgor wedi bod yn rhedeg am dair awr bellach, ac o dan ddarpariaethau paragraff 4.1.10 o Gyfansoddiad y Cyngor, roedd angen penderfyniad gan fwyafrif o'r Aelodau hynny o'r Pwyllgor a oedd yn bresennol i gytuno i barhau â'r cyfarfod. Cytunwyd y dylai'r cyfarfod barhau.

Mewn ymateb i bwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor, cafwyd eglurhad pellach gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 -

- Mae'r tanwariant ar y gyllideb gyfalaf yn ymwneud yn bennaf â chynlluniau sy'n cael eu hariannu gan grantiau cyfalaf. Mae ymagwedd y Cyngor at fenthyca yn seiliedig ar nodau ac anghenion llif arian yn hytrach nag ar sail fesul prosiect h.y. bydd y Cyngor yn benthyca pan nad oes ganddo arian parod ar gael i ariannu gwariant cyfalaf.
- Bod y tâl a godir i Refeniw am gost y benthyca yn cael ei wneud trwy'r Ddarpariaeth Refeniw Isafswm (MRP). Mae'r Polisi MRP wedi'i ddiwygio er mwyn cysylltu'r benthyciad i oes yr ased a fenthycwyd ar ei gyfer fel bod y tâl i refeniw yn darparu digon ar ddiwedd tymor y benthyciad i ad-dalu'r ddyled pan ddaw'n ddyledus.

Penderfynwyd –

- **Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad yn aros yn rhai dros dro hyd nes bydd yr archwiliad ar Ddatganiad Cyfrifon 2018/19 wedi'i gwblhau a'i lofnodi; bydd unrhyw addasiadau sylweddol i'r ffigyrau yn yr adroddiad sy'n deillio o'r archwiliad yn cael eu hadrodd fel bo'n briodol.**
- **Nodi'r dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro ar gyfer 2018/19 yn yr adroddiad.**
- **Derbyn yr adroddiad Adolygiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys 2018/19, a'i argymhell i'r Pwyllgor Gwaith heb sylwadau.**

10 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd Blaen Raglen Waith y Pwyllgor a chafodd ei derbyn a'i nodi heb unrhyw newid.

**Cynghorydd Peter Rogers
Cadeirydd**